Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

—

Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Chwefror 2021

Annwyl Weinidog,

Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth ar effeithiau tymor hir COVID-19 (syndrom ôl-COVID neu COVID hir), fel rhan o'n hymchwiliad i effaith pandemig COVID-19, a'i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddwn yn clywed gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys pobl sy'n profi effeithiau tymor hwy COVID-19, panel o academyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol.

Cyn y cyfarfod hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am bolisi Llywodraeth Cymru ar reoli COVID hir, yn benodol:

1. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gynnig cymorth i ddioddefwyr COVID hir mewn canolfannau arbenigol, yn debyg i'r hyn a wneir gan GIG Lloegr;
2. Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu **canllawiau NICE ar reoli effeithiau tymor hir COVID-19**;
3. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i helpu i asesu, diagnosio a thrin dioddefwyr, gan gynnwys y rhai sy'n profi effeithiau iechyd meddwl COVID-19;
4. Pa gyllid fydd ar gael ar gyfer gwasanaethau COVID hir;
5. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw asesiad o oblygiadau posibl COVID hir ar y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol;
6. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i reoli COVID hir mewn lleoliadau gofal cymdeithasol (er enghraifft, yr effaith ar staff sy'n dychwelyd i'r gwaith, yr effaith ar ofalwyr di-dâl);
7. A yw Llywodraeth Cymru wedi comisiynu unrhyw waith ymchwil i COVID hir, gan gynnwys manylion rôl a chylch gwaith Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru;


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

8. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw waith sy’n cael ei wneud gan fyrddau iechyd i reoli effeithiau tymor hir COVID-19, a pha rôl y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae wrth hyrwyddo dysgu neu rannu arfer gorau rhwng byrddau iechyd.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn **24 Chwefror 2021** i helpu i lywio ein sesiwn dystiolaeth ar 10 Mawrth.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**